



Marchnadoedd — Cymuned — Celfyddydau
Markets — Community — Arts

Beth Sydd Ymlaen y Nadolig Hwn

Ogof Siôn Corn

1 - 24 Rhagfyr

Ewch i hwyl yr ŵyl gydag ymweliad i weld Siôn Corn yn yr ogof hudol. Gall y rhai bychain gyfarfod Siôn Corn yn ei ogof a derbyn rhodd arbennig

Oriau Agor

Dydd Llun - Dydd Gwener 2pm-6pm
Dydd Sadwrn - Dydd Sul a Noswyl Nadolig
11am - 4pm
£4.50

Blas y Nadolig

Dydd Sadwrn, 8 Rhagfyr am 7pm

Pryd tri chwrs wedi'i baratoi gan rai o fwytai'r ardal fwyd, Curry-on-the-go, Plât Bach a Just Desserts & Milkshakes. Bydd y pryd yn cynnwys cawl i ddechrau a llond plât o fwyd Nadolig i'w rannu a chacen gaws neu bwdin Nadolig i orffen. Diodydd ar gael o'r bar. Band jazz Nadoligaidd byw.

£24.95 y pen Mae archebu lle yn hanfodol
typawb@wrexham.gov.uk 01978 292144



Ffilmiau Nadoligaidd

Byddwn yn dangos ffilmiau Nadoligaidd ar gyfer plant ac oedolion drwy gydol mis Rhagfyr. Ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth.



Calendr y Nadolig



Dydd Iau 29 Tachwedd

6pm-8pm

Gweithdy Cracer Nadolig

Dewch i greu 6 o Graceri Nadolig â llaw gydag anrhegion bychain y tu mewn iddynt. £12 (yn cynnwys diod a mins pei).

Mae archebu lle yn hanfodol – typawb@wrexham.gov.uk – 01978 292144.

Dydd Sadwrn 1 Rhagfyr

12.30pm-2.30pm

Sesiwn Crefftau Nadolig Am Ddim i Deuluoedd

7.30pm-11.00pm

Gig Gymreig: Mellt/Sundance Kid/Lewys

Dydd Iau 6 Rhagfyr

1pm-2pm

Cyngerdd Am Ddim Amser Cinio:

Brian Heald a Lionel Clarke (piano a soddgrwth)

5.30pm-8.00pm

Siopa Hwyr + Bwyd a Danteithion yn y Siop
(siop oriel Tŷ Pawb)

Dydd Sadwrn 8 Rhagfyr

12.30pm-2.30pm

Sesiwn Crefftau Nadolig Am Ddim i Deuluoedd

7.00pm-10.30pm

Blas y Nadolig

Pryd 3 Chwrs Nadoligaidd gyda Band Jazz Byw (gweler y dudalen flaen)

Dydd Sul 9 Rhagfyr

11am-4pm

Ffair Grefftau Nadolig Helfa Gelf

Dydd Mercher 12 Rhagfyr

12.00pm-2.30pm – Gweithdy Creu Torchau Nadolig

Dewch i greu eich Torch Nadolig eich hun, gyda chymorth yr artist blodau Katie Hudson, yn defnyddio celyn, aeron a dail. £30 (yn cynnwys yr holl ddeunyddiau, te, coffi a mins peis).

Mae archebu lle yn hanfodol – typawb@wrexham.gov.uk – 01978 292144.

Dydd Iau 13 Rhagfyr

1pm-2pm

Cyngerdd Am Ddim Amser Cinio: Elias Ackerley

(Unigolyn yn Rownd Derfynol Cystadleuaeth Cerddor Ifanc y Flwyddyn y BBC 2018)

5.30pm-8.00pm

Siopa Hwyr + Bwyd a Danteithion yn y Siop

6pm-8pm

Sioe Ffasiwn i Elusen

Bydd Tŷ Pawb yn cynnal ei *SIOE FFASIWN I ELUSEN* gyntaf ar nos Iau 13 Tachwedd o 6.00-8.00pm! Dewch i wyllo dillad yn cael eu modelu yn fyw ar lwyfan sydd wedi'i leoli yn yr ardal fwyd. Mae'r dillad i gyd yn cael eu darparu gan ein masnachwyr ein hunain, yn cynnwys gallery 01 a New Style Boutique.F!

- Cerddoriaeth Fyw
- Siopa Hwyr
- Dewisiadau Bwyd / Diod + Bar
- Raffl gyda Gwobrau – bydd yr holl elw yn mynd i'r elusen

Dydd Gwener 14 Rhagfyr

12.00pm-2.30pm

Gweithdy Creu Torchau Nadolig

Dewch i greu eich Torch Nadolig eich hun, gyda chymorth yr artist blodau Katie Hudson, yn defnyddio celyn, aeron a dail. £30 (yn cynnwys yr holl ddeunyddiau, te, coffi a mins peis).

Mae archebu lle yn hanfodol – typawb@wrexham.gov.uk – 01978 292144.

6.00-8.00pm

Parti Nadolig i Blant gyda Cherddoriaeth Fyw, Bwyd a Gweithgareddau

Dydd Sadwrn 15 Rhagfyr

12.30-2.30pm

Sesiwn Crefftau Nadolig Am Ddim i Deuluoedd

7.30-11.00pm

Gig Nadolig: Gallops / Memory of Elephants / Jack Found
£8

Dydd Iau 20 Rhagfyr

5.30-8.00pm

Siopa Hwyr + Bwyd a Danteithion yn y Siop

Dydd Gwener 21 Rhagfyr

7.30-11.00pm

Noson Gomedï Nos Wener Wyllt - Ignacio Lopez, Callum Oakley,
Kevin Caswell-Jones
£10

Dydd Sadwrn 22 Rhagfyr

7.00pm-1.00am

Parti Nadolig The Big Beat
£8

Dydd Sadwrn 29 Rhagfyr

7.30pm-10.30pm

Y Cyfansoddwyr

Mae rhai o Gantorion / Ysgrifenyddwyr Caneuon Gwlad ac Americana gorau'r D.U. wedi cael gwahoddiad i berfformio yn y digwyddiad hwn. Bydd yr artistiaid yn rhannu eu caneuon gwreiddiol a'r straeon sy'n sail i'r caneuon hynny. Mae awyrgylch preifat i leoliad y digwyddiad er mwyn sicrhau profiad cerddorol dymunol. £6

For more information and to book onto these events, contact us:

typawb@wrexham.gov.uk 01928 292144

www.typawb.wales